

## **Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth Cymru**

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno dadansoddiad o'r deugain a phedwar o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth Cymru.

Ceir crynodeb o'r ymatebion i bob un o'r cwestiynau ymgynghori. Ar ôl y crynodeb, ceir rhestr o bwyntiau bwled sy'n rhoi mwy o fanylion. Sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr yw'r rhain ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn Llywodraeth Cymru nac unrhyw rai o'r sefydliadau a oedd yn cefnogi Llywodraeth Cymru pan lanswyd yr ymgynghoriad. Mae'r sylwadau ar ffurf pwyntiau bwled wedi'u didoli i grwpiau bras o ymatebwyr i roi darlun mwy cywrain o'r ymatebion a ddaeth i law. Rhestrir y gwahanol grwpiau yn **Atodiad A**.

### **Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n gweledigaeth gytûn ar gyfer amaethyddiaeth? Beth arall fydddech chi'n ei gynnig yn ei lle?**

#### Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r weledigaeth arfaethedig ac yn croesawu'r ymgais i ystyried amaethyddiaeth yn y tymor hir. Roedd lleiafrif yn pryderu bod gair neu elfen allweddol wedi'i hepgor o'r weledigaeth.

Awgrymwyd y dylid ychwanegu geiriau/materion ychwanegol, sef ychwanegu amrywiaeth, cynnwys bwyd a ffeibr, ychwanegu cynaliadwyedd, adlewyrchu anghenion cymunedau gwledig a'r sector twristiaeth, neu ychwanegu cyfeiriad penodol at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd rhai am sicrhau bod pobl ddeall bod y weledigaeth yn mynd tu hwnt i gynhyrchu bwyd. Roedd rhai o'r ymatebwyr hynny'n pryderu bod y weledigaeth gryno'n rhy agored i'w dehongli.

Dywedodd ymatebwyr eraill fod angen i'r weledigaeth a'r testun ategol egluro pwysigrwydd hygyrchedd yn well a chydgyssylltu'n well â rhaglenni Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 i hybu gweithgareddau ehangach ac i sicrhau mwy o ddylanwad.

#### Ffermwyr, cyrff ffermio â buddiant a sefydliadau cysylltiedig

Roedd pump o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf / yn cytuno gan ddweud:

- Drwy Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru, rydym yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod safonau iechyd a lles anifeiliaid yn gwella'n gyson ac yn barhaus. Gall hyn, yn ei dro, wella incwm busnesau fferm, gwella cynaliadwyedd busnesau fferm a gwireddu ein potensial yn y farchnad.

- Rydym hefyd yn cefnogi'r canlyniadau (a nodir ar dudalen 5) ar gyfer y diwydiant amaeth. Fodd bynnag, os bwriedir i hwn fod yn fframwaith "ymbarél", rydym yn awgrymu y dylid ystyried newid geiriad y canlyniadau i sicrhau eu bod yn ddatganiadau cadarnach, er enghraifft; Bod gan Gymru ddiwydiant amaeth sy'n gynaliadwy – o safbwynt economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol; Bod gan Gymru ddiwydiant amaeth sy'n gynhyrchydd effeithlon – gan gadw safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid...
- Sicrhau bod modd i fwy o bobl ifanc ymuno â'r diwydiant amaeth.
- Mae angen i uchelgeisiau'r Llywodraeth fod yn realistig ac mae angen eu gosod yng nghyd-destun diwydiant (defaid, llaeth) sydd bellach yn colli arian yn erbyn y costau cynhyrchu.
- Mae'r egwyddorion yn dda, ond nid ydynt yn rhoi digon o sylw i'r ffermwr fel unigolyn. Yn benodol, o ran cydnerthedd, mae ffermwyr mewn sefyllfa neilltuol o fregus. Ffermwyr â ffermydd bach a busnesau ffermio cymysg sydd fwyaf agored i broblemau ariannol a phroblemau eraill.
- Mae darparwyr gwasanaethau ffôn symudol eisoes yn datgomisiynu mastiau llai proffidiol yng Nghymru. Mae'n hollbwysig bod ffermwyr yn croesawu technolegau newydd nawr ac yn y dyfodol er mwyn arloesi. Ar lawer o ffermydd, nid oes fawr ddim gwasanaeth ffôn symudol ar gael, os o gwbl, mae'r ddarpariaeth band eang yn eithriadol o araf, ac mae'r cysylltiadau trydan (os o gwbl) yn annigonol.
- Yn anffodus, ni allwn bob amser gystadlu mewn marchnad nwyddau fyd-eang ar sail pris. Mae gan ffermwyr Cymru stori wych i'w rhannu â defnyddwyr, ac mae angen cynnal mwy o ymgyrchoedd addysgiadol cadarnhaol i hyrwyddo manteision 'ffermio carbon isel' sy'n sicrhau buddion amgylcheddol ac sy'n cynhyrchu bwyd o safon.

Nid oedd un o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno:

- Byddai modd ailysgrifennu'r weledigaeth fel a ganlyn: Rydym am weld diwydiant amaethyddol ffyniannus a chydnerth sy'n gyflogwr mawr ac sy'n hybu lles Cymru nawr ac i'r dyfodol.

Roedd tri o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r weledigaeth, gan ddweud:

- Mae angen sicrhau bod modd inni ffermio heb gymorthdaliadau cynhyrchu a bod yn broffidiol h.y. Colofn 1 a bod yn broffidiol. Pan fo ffermwyr yn dibynnu mwy ar gymorthdaliadau i redeg eu busnesau, mae'n llesteirio arloesi ac mae'n dod yn anodd iawn newid eu ffordd o feddwl.
- Dim ond drwy wella ansawdd a swm ein cig coch a chynyddu ein cyfran o'r farchnad fyd-eang y gall Cymru fod yn fwy ffyniannus.

- Oni bai inni gofnodi a mesur yn gywir, ni allwn bennu ein cryfderau a'n gwendidau a chadw rheolaeth ar ein busnesau.
- Mae hyfforddiant yn hollbwysig i wneud y gorau o botensial y buddsoddiad i wneud busnes yn fwy proffidiol.
- Mae'r rhagdybiaethau sy'n ategu ein gweledigaeth yn gamarweiniol. Defnyddir y gair 'ffyniannus' a thybir ei fod yn gyfystyr â mwy o gynhyrchu, mwy o dwf a mwy o elw. Nid yw hynny'n wir. Nid yw ffyniant yn gyfystyr ag incwm na chyfoeth. Rwy'n awgrymu y dylid newid y geiriau a rhoi 'ffyniant heb dwf' yn ei le. Rwy'n awgrymu gweledigaeth sy'n datgan: 'Bydd yr holl fwyd o Gymru'n gynnwys ffermio amgylcheddol-gyfrifol'.
- Cefnogi'r weledigaeth a chytuno bod rhaid i safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid fod yn nodwedd amlwg o unrhyw fesur i wireddu potensial llwyr y diwydiant amaeth fel cynhyrchydd effeithlon.
- Rydych wedi cynnig gweledigaeth a fframwaith, nid strategaeth. Onid yw'n bosibl cael fframwaith strategol i wireddu gweledigaeth? Onid oes angen strategaeth sy'n nodi sut i gydweithio? Rydych yn awgrymu rhestr o egwyddorion a gynigiwyd gan grŵp o dan arweiniad y diwydiant fel pe baent wedi'u derbyn a'u cymeradwyo. A yw hyn yn wir? Os felly, ble mae'r egwyddorion y cytunwyd arnynt yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol? Beth yw'r berthynas, os o gwbl, rhwng y Ddeddf honno a'r 'weledigaeth' hon? Rydych yn dweud nad ydych yn cynnig manylion, ac eto rydych yn cyfaddef bod rhai manylion wedi'u paratoi a'u bod eisoes yn eu lle. Os felly, pam na wnewch chi ddweud wrth y darlennydd ac egluro'ch dewis? Prif wendid y dull hwn o weithredu yw eich bod yn chwilio am weledigaeth "o'r hyn sydd ei eisiau arnom", ond nid yw'n amlwg bod yr hyn sydd ei eisiau arnom a) yn gyraeddadwy, b) yn ddymunol.

#### Ymatebion gan lywodraeth leol a sefydliadau cysylltiedig:

Roedd wyth yn cytuno â'r weledigaeth, gan ddweud:

- Mae'n gadael lle i'w addasu a'i newid ac rydym yn croesawu hynny. Rydym yn sylweddoli bod angen parhau i gefnogi unedau fferm cynhyrchiol er mwyn i amaethyddiaeth barhau i arloesi ac i ymateb i dueddiadau yn yr economi a'r farchnad. Rydym yn awgrymu bod cyfle i'r unedau mwy cynhyrchiol fentora a chynorthwyo'r unedau llai cynhyrchiol sy'n dibynnu mwy ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol er mwyn iddynt barhau i fod yn hyfyw. Rydym yn credu bod cyfle hefyd i ddatblygu systemau cymorth cydfuddiannol ar gyfer unedau fferm cydweithredol.

- O sicrhau mwy o ffyniant, gallai hefyd gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi ar ffermydd, a hynny mewn diwydiant lle mae llawer o brosesau awtomatig ar waith. Gallai model gwledig newydd ddod i'r amlwg, lle mae ffermio'n ailgysylltu â'r economi gylchol leol a lle mae marchnadoedd lleol yn dod yn fwy a mwy pwysig i'r diwydiant amaeth, gan gau bylchau a chadw mwy o wariant gwledig yn yr economi leol.
- Mae cyfle i lunio gweledigaeth amaeth-ecolegol gryfach i ategu safbwyntiau'r ddogfen o ran cynaliadwyedd.
- Rydym yn sylweddoli y dylai amaethyddiaeth Cymru ganolbwyntio ar y farchnad a bod yn effro i alwadau'r farchnad, ond rydym hefyd yn credu y dylai amaethyddiaeth Cymru fod yn dylanwadu ar y farchnad h.y. dylai cynhyrchwyr fod yn gwneud mwy i lywio'r agenda, gan greu cyfleoedd yn hytrach na dim ond ymateb i ffocws eraill sy'n rhan o'r farchnad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gynhyrchu defaid o ran hyrwyddo manteision bwyta cig oen Cymru a chreu diddordeb mewn cig o fridiau a systemau cynhyrchu amrywiol, a galw amdanynt, i gefnogi'r amrywiaeth gyfoethog o systemau ffermio defaid.
- Cytuno â'r weledigaeth, ond angen rhoi mwy o bwyslais ar y berthynas rhwng y cynhyrchydd a'r defnyddiwr a'r angen i'r cyhoedd ddeall y diwydiant yn well.
- O ymgysylltu mwy â sectorau eraill tu hwnt i'r undebau a'r ffermwyr eu hunain, byddai modd dod i ddeall mwy am yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad.
- Mae'n hollbwysig mynd ati i roi rhaglenni ar waith mewn ffordd fwy cydgysylltiedig er mwyn cyflawni gwell canlyniadau. Bydd hyn o fudd i gefn gwlad Cymru a Chymru gyfan, ac nid dim ond i'r diwydiant.
- O ran rheoli tir yn gynaliadwy, gan gynnwys carbon, ansawdd dŵr, cynefinoedd, adar, rhywogaethau targed ac ati, dylid cynnwys cyfleoedd yn y dyfodol i Dalu am Wasanaethau Ecosystemau.
- Adeiladu cyfalaf dynol i fanteisio ar well entrepreneuriaeth ac arallgyfeirio ym maes amaethyddiaeth a thu hwnt.
- Deall y marchnadoedd byd-eang a chydweithio a chydgysylltu o fewn cadwyni cyflenwi.
- I sicrhau gwir newid yn y diwydiant, mae angen newid diwylliant o safonau a deilliannau addysgol i newidiadau polisi. Mae'n hollbwysig addysgu ffermwyr o oedran cynnar. O ymgysylltu mwy â sectorau eraill tu hwnt i'r undebau a'r ffermwyr eu hunain, byddai modd dod i ddeall mwy am yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad.

- Cytuno â'r weledigaeth ar gyfer diwydiant amaeth cydnerth a fydd yn hybu lles Cymru nawr ac i'r dyfodol.
- Mae angen i fusnesau fferm fod yn gydnerth ac yn gadarn er mwyn gwrthsefyll anawsterau – am resymau naturiol a gallu eu rheoli'n well. Ychwanegu gair “amrywiol” i'r weledigaeth.
- Croesawu cynlluniau Llywodraeth Cymru i helpu i sefydlu diwydiant sy'n edrych i'r dyfodol, yn defnyddio arferion gorau ac yn gweithio i warchod ac i wella pridd, dŵr a'r amgylchedd naturiol, ar yr amod bod hyn hefyd yn cynnwys amcan penodol i adfer ac i warchod bywyd gwyllt ar dir amaeth (cynefinoedd a rhywogaethau).
- Cytuno â safbwynt cyffredinol y weledigaeth gytûn. Fodd bynnag, o ystyried y rôl hollbwysig y mae bioamrywiaeth yn ei chwarae mewn systemau ffermio, rydym yn credu y dylid ei nodi. Felly, rydym yn awgrymu'r hyn a ganlyn: 'Diwydiant amaethyddol ffyniannus a chydnerth sy'n hybu lles Cymru nawr ac i'r dyfodol gan warchod bioamrywiaeth a'r amgylchedd ar yr un pryd.'
- Yn y weledigaeth, hoffwn pe bai'r Llywodraeth yn cydnabod y rôl y mae amaethyddiaeth yn ei chwarae o ran economi, amgylchedd a chymdeithas Cymru ac yn nodi y bydd gan y Llywodraeth yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni ei chyfrifoldebau rheoleiddiol a'i chyfrifoldebau ar draws y diwydiant.
- Yn aml, bydd rhaid cyfaddawdu rhwng cynhyrchu a'r amgylchedd. Dylid cydnabod hyn a dylai pob parti dderbyn hyn. Dylid nodi bod ffocws amrywiol busnesau ffermio, h.y. yr amgylchedd ar y naill law a chynhyrchiant ar y llaw arall gyda nifer o wahanol haenau rhyngddynt, yn ddymunol er mwyn bodloni'r gofynion o ran cynhyrchu bwyd ac o ran yr amgylchedd a bioamrywiaeth.
- Wrth geisio bod yn gynnil, rwy'n pryderu bod gormod o le i ddehongli'r weledigaeth. Pe câi'r weledigaeth ei diwygio er mwyn cyfeirio at y nodau a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gellid defnyddio'r geiriad a ganlyn:  
“Diwydiant amaethyddol ffyniannus a chydnerth sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at holl nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.”

Roedd tri o'r ymatebwyr yn anghytuno:

- Rydym yn credu bod a wnelo polisi amaethyddol â mwy na chynhyrchiant a thwf economaidd a'i fod o bwys i grwpiau eraill ac eithrio cyrff y diwydiant. Rydym hefyd yn cydnabod bod y gwaith o warchod cefn gwlad yn nwylo'r sector amaethyddol i raddau helaeth a bod angen cymorth arno i gyflawni'r rôl hollbwysig hon.

- Credu nad yw'r "weledigaeth" yn ddefnyddiol iawn oherwydd ei bod yn dibynnu cymaint ar gyffredinoliadau a breuddwydion gwrach yn hytrach na darparu fframwaith clir ar gyfer strategaeth effeithiol.
- Mae ffeibr ar ffurf coed neu fiomas hefyd yn gynnyrch gwaith rheoli tir ond nid yw'n cael ei ddiffinio fel bwyd. Dylid diwygio'r datganiad hwn i gynnwys "bwyd A FFEIBR".
- Er ein bod yn cytuno â'r weledigaeth ar gyfer "diwydiant amaethyddol ffyniannus a chydnerth sy'n hybu lles Cymru nawr ac i'r dyfodol", rydym yn pryderu'n fawr am lefel yr uchelgais, a hynny oherwydd bod y disgrifiad o gynhyrchu cynaliadwy'n cynnwys y cymal "[c]yfyngu ... ar unrhyw sgil-ffeithiau niweidiol".
- Oherwydd yr ymdrech i barhau i fod yn hyfyw, mae rhai rhannau o'r diwydiant amaeth eisoes yn wynebu problemau sylweddol o ran cynaliadwyedd amgylcheddol.
- Er bod y weledigaeth gyffredinol yn atseinio iaith Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r disgrifiad canlynol o gynhyrchu cynaliadwy'n golygu y gallai fod yn agored i gael ei chamddehongli. Felly mae angen datganiad mwy pendant o'r angen i barchu terfynau amgylcheddol a'r angen i fynd i'r afael â'r problemau presennol ochr yn ochr â'r nodau llesiant eraill. Fel y nodir yng nghyflwyniad y ddogfen ymgynghori, y gwaith o reoli pridd, dŵr a'r amgylchedd naturiol mewn ffordd gynaliadwy yw sylfaen diwydiant amaeth cynaliadwy. Fodd bynnag, bydd angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu'r systemau angenrheidiol a'r cysylltiadau rhyngddynt a gofynion deddfwriaeth arall fel Bil yr Amgylchedd. Ni ddylem anghofio bod cyfle gwych i'r diwydiant ffermio gyfrannu at ddarparu ystod eang o wasanaethau a all gefnogi cymdeithas ac amgylchedd naturiol Cymru. Gallai ffermwyr a rheolwyr tir fanteisio ar y cyfle i ddarparu gwasanaethau o'r fath i'w cynorthwyo i arallgyfeirio'u busnesau ac i greu busnesau mwy cynaliadwy yn y tymor hwy.

Nid oedd un o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno:

- Yn anffodus, ni allwn bob amser gystadlu mewn marchnad nwyddau fyd-eang ar sail pris. Mae gan ffermwyr Cymru stori wych i'w rhannu â defnyddwyr, ac mae angen cynnal mwy o ymgyrchoedd addysgiadol cadarnhaol i hyrwyddo manteision 'ffermio carbon isel' sy'n sicrhau buddion amgylcheddol ac sy'n cynhyrchu bwyd o safon.

#### Sefydliadau garddwriaethol

Roedd un o'r ymatebwyr yn cytuno gan ddweud:

- Fel y nodir yn y ddogfen, nid oes amserlen wedi'i rhoi. Mae'n debygol y bydd materion newydd yn codi nad ydynt yn cael eu trafod yn y ddogfen e.e. clefydau planhigion newydd, rhywogaethau goresgynnol.

Yng ngoleuni materion o'r fath, bydd angen adolygu'r ddogfen yn rheolaidd. Rydym yn cytuno y dylid cydnabod bod garddwriaeth yn rhan bwysig o ddiwydiant cynhyrchu bwyd Cymru ac o ystyriaethau defnydd tir yng Nghymru a'i bod yn cyfrannu at y dirwedd. Mae'n addas ac yn briodol ei chynnwys a'i chydabod yn y fframwaith hwn.

Roedd un o'r ymatebwyr yn anghytuno:

- Dylid geirio'r weledigaeth fel a ganlyn: Diwydiant amaethyddol, nad yw'n dibynnu ar gymorthdaliadau mwyach sy'n defnyddio systemau cynhyrchu lleol byw ac amrywiol i sicrhau bod gan ffermwyr farchnadoedd cadarn ar gyfer bwyd, ynni a chynnyrch cynydau eraill ar garreg y drws, gan greu Cymru iachach, hapusach a chynaliadwy; bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i fodloni blaenoriaethau lefel uchel eraill Llywodraeth Cymru fel gwella iechyd y genedl.

### Prifysgolion

Roedd un o'r ymatebwyr yn cytuno:

- Byddem yn croesawu mwy o bwyslais ar les anifeiliaid. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw amaethyddiaeth am barhau i ddatblygu tu hwnt i Ewrop lle gall y safonau lles fod yn wahanol i'r rheini sydd ar waith yn y DU.

Roedd un o'r ymatebwyr yn anghytuno:

- Rydym yn credu y dylid cynnwys y term 'cynaliadwy' hefyd. O ychwanegu'r term hwn, bydd yn helpu i annog pobl i ystyried cynaliadwyedd cymdeithasol hirdymor (diogelwch, iechyd a lles y gweithlu) yn ogystal â ffactorau amgylcheddol ac economaidd.

### Eraill

Roedd saith o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf / yn cytuno â'r weledigaeth arfaethedig:

- Mae angen taer am newid sy'n mynd i'r afael yn well â'r marchnadoedd presennol a'r marchnadoedd posibl, yn sicrhau bod amaethyddiaeth Cymru'n fwy cydnerth, proffidiol a chynaliadwy ac yn gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol. Mae angen amrywiaethu amaethyddiaeth Cymru.
- Yr her fydd cael grwpiau gwahanol sy'n aml yn meddu ar eu agenda eu hunain i gydweithio er budd cyffredinol amaethyddiaeth Cymru.
- Mae'r sector amaethyddol yn eithriadol o bwysig i economi Cymru a'r cymunedau sy'n gysylltiedig ag ef, ond mae iddo botensial na fanteisiwyd arno hyd yma.

- I greu sector mwy proffidiol, dylai rhywun “brynu’r hyn y mae rhywun yn ei werthu, nid gwerthu’r hyn y mae rhywun yn ei brynu” h.y. cynhyrchu’r hyn sydd ei eisiau ar farchnad sy’n cael ei harwain gan gwsmeriaid am bris a gwerth y mae’r farchnad yn barod i’w talu.
- Mae’n uchelgeisiol – yn enwedig pan fo’n anelu at “gyfyngu ... ar unrhyw sgil-efeithiau niweidiol”. Cytuno mewn egwyddor “[na] ddylai gwarchod a rheoli’n hadnoddau naturiol wrthdaro â chynhyrchu amaethyddol”.
- Rydym yn croesawu’n fawr y ffaith bod iechyd a lles anifeiliaid wedi’i bennu fel ffocws allweddol i drawsnewid y diwydiant.
- Er ein bod yn sylweddoli na fwriedir i’r ymgynghoriad hwn nodi manylion unrhyw gynlluniau neu dargedau, bydd yn hollbwysig eu llunio cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i’r diwydiant a Llywodraeth Cymru ddechrau pennu’r camau i’w cymryd i wireddu’r weledigaeth hon a mynd ati’n gyflym i weithredu yn lle siarad, yn enwedig i wneud y gorau o’r buddion sydd ar gael drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru.
- Byddem yn cytuno â safbwynt cyffredinol y weledigaeth gytûn. Fodd bynnag, o ystyried y rôl hollbwysig y mae bioamrywiaeth yn ei chwarae mewn systemau ffermio, rydym yn credu y dylid ei nodi. Felly, rydym yn awgrymu’r hyn a ganlyn: ‘Diwydiant amaethyddol ffyniannus a chydnerth sy’n hybu lles Cymru nawr ac i’r dyfodol gan warchod bioamrywiaeth a’r amgylchedd ar yr un pryd.’
- Yn y weledigaeth, hoffwn pe bai’r Llywodraeth yn cydnabod y rôl y mae amaethyddiaeth yn ei chwarae o ran economi, amgylchedd a chymdeithas Cymru ac yn nodi y bydd gan y Llywodraeth yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni ei chyfrifoldebau rheoleiddiol a’i chyfrifoldebau ar draws y diwydiant.
- Dylid nodi bod ffocws amrywiol busnesau ffermio, h.y. yr amgylchedd ar y naill law a chynhyrchiant ar y llaw arall gyda nifer o wahanol haenau rhyngddynt, yn ddymunol er mwyn bodloni’r gofynion o ran cynhyrchu bwyd ac o ran yr amgylchedd a bioamrywiaeth.
- Gweledigaeth glir ar gyfer ffermio cynaliadwy (ar bob graddfa ddaearyddol briodol), gyda dangosyddion cynaliadwyedd ategol sy’n seiliedig ar dystiolaeth ar draws gwahanol systemau ffermio. O greu gweledigaeth sy’n seiliedig ar ddatblygu cynaliadwy, bydd yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn hyn o beth ac yn helpu’r diwydiant amaeth i symud i gyfeiriad a fydd yn sicrhau ei fod yn cyfrannu at y Nodau Llesiant a bennwyd yn ddiweddar yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.



## **Cwestiwn 2. Beth yw'ch ymateb i'n hasesiad o'r cyfleoedd, y bygythiadau a'r heriau y mae'n rhaid i'r diwydiant amaeth fynd i'r afael â nhw? A oes rhai eraill?**

Cafodd y pwyntiau bwled isod eu didoli i grwpiau bras. Sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr ydynt ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn Llywodraeth Cymru, unrhyw ran ohoni nac unrhyw gorff sy'n gysylltiedig â hi.

### Crynodeb

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at amryw o fanylion ond ni fynegwyd unrhyw safbwyntiau newydd gwahanol iawn ynghylch y cyfleoedd, y bygythiadau a'r heriau. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cefnogi'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori. Codwyd pryderon am newid hinsawdd yn benodol o ran dyfodol strategaethau rheoli tir a phridd. Cyfeiriwyd at hygyrchedd a gwella'r cysylltiadau â Chynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 i hybu mwy o weithgareddau o dan y Fframwaith ac i sicrhau bod iddo fwy o ddylanwad. Dywedwyd bod cydweithio'n hollbwysig i sicrhau llwyddiant ac y dylai adlewyrchu ethos Cynllun Datblygu Cymru a nodau/amcanion strategol Llywodraeth Cymru.

### Ffermwyr, cyrff ffermio â buddiant a sefydliadau cysylltiedig

Roedd pump o'r ymatebwyr yn cytuno:

- Mae angen ystyried effaith newid hinsawdd a thywydd garw ac mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn barod i ymateb yn well. Mae darparwyr gwasanaethau ffôn symudol eisoes yn datgomisiynu mastiau llai proffidiol yng Nghymru. Mae'n hollbwysig bod ffermwyr yn croesawu technolegau newydd nawr ac yn y dyfodol er mwyn arloesi. Ar lawer o ffermydd, nid oes fawr ddim gwasanaeth ffôn symudol, os o gwbl, mae'r ddarpariaeth band eang yn eithriadol o araf, ac mae'r cysylltiadau trydan (os o gwbl) yn annigonol.
- Sbarduno gwelliannau yn y diwydiant er mwyn bod yn fwy effeithlon, gwneud mwy o elw a chynyddu cynhyrchiant. Gwella'r capasiti i wrthsefyll anawsterau o ble bynnag y dônt. Cynnyrch bwyd cydnabyddedig ag iddynt farchnadoedd mawr a sefydledig yn y DU a'r UE a photensial i gynyddu allforion ac ychwanegu at werth. Cefnogaeth ar gyfer grwpiau o gynhyrchwyr a mentrau cydweithredol. Potensial am fwy o gydweithredu o fewn y diwydiant amaeth a chryfhau cadwyni cyflenwi. Bygythiadau: Clefydau anifeiliaid newydd yn dod i'r amlwg.
- Nid ydym yn teimlo bod yr heriau / bygythiadau sy'n deillio o ffactorau tu hwnt i reolaeth cyrff y diwydiant a Llywodraeth Cymru'n cael eu cydnabod yn ddigonol. Un enghraifft yw'r gostyngiad aruthrol ym mhrisiau nwyddau yn y sector llaeth sy'n effeithio'n enbyd ar incwm a phroffidioldeb ffermydd. Bydd hyn yn sicr o gael effaith andwyol anuniongyrchol ar iechyd a lles anifeiliaid wrth i ffermwyr geisio lleihau eu costau. Rydym yn deall bod angen meithrin a datblygu

marchnadoedd, ond mae angen rheoleiddio'r cadwyni cyflenwi'n well i sicrhau bod modd i ffermwyr gadw'r buddion y gallant eu cael drwy arbedion effeithlonrwydd, yn hytrach na gweld y buddion hynny'n cael eu herydu gan y sector manwerthu pwerus.

- Mae gwella safonau iechyd a lles anifeiliaid a gwella effeithlonrwydd yn feysydd lle gall y diwydiant a Llywodraeth Cymru wneud gwahaniaeth. Mae cyfle i ddefnyddio Cynllun Datblygu Gwledig Cymru i godi ymwybyddiaeth o iechyd a lles anifeiliaid, drwy drosglwyddo gwybodaeth a pharatoi cynlluniau i ddileu clefydau. Gellir hybu camau i wella bioddiogelwch drwy gymorth grant penodol a datblygu unedau cwarantîn i ddisodli'r gwaharddiad symud chwe niwrnod. Gellir hybu dull mwy cyfannol o gynllunio iechyd anifeiliaid a chymell ffermwyr a milfeddygon i gydweithio.

Roedd dau o'r ymatebwyr yn anghytuno gan ddweud:

- I lunio fframwaith ar gyfer amaethyddiaeth Cymru, mae angen syniadau cydgysylltiedig o ran y llywodraeth, ystyriaethau amgylcheddol, newid hinsawdd, cynaliadwyedd a dyheadau/rhwymedigaethau economaidd. Mae angen i'r strategaeth hon gydblythu ag adrannau eraill y llywodraeth.
- Mae'r diwydiant amaeth, yn enwedig y diwydiant llaeth, yn mynd drwy broses ailstrwythuro enfawr oherwydd grym y farchnad a globaleiddio. Mae'r mater hwn wedi cael cryn sylw, gan gynnwys yn ystod y gwrthdystiadau diweddar yn erbyn y pris isel y mae ffermwyr yn ei gael am laeth. Mae nifer y ffermydd llaeth yn gostwng, mae'r ffermydd yn lleihau, ac mae'r lefelau cynhyrchu'n cynyddu (er mwyn lleihau'r costau unedol a chynyddu'r incwm).

#### Llywodraeth leol a sefydliadau cysylltiedig

Roedd saith o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dadansoddiad yn y ddogfen ymgynghori, gan ddweud:

- Cyfleoedd eraill: Mae Cymru wedi bod yn arwain y farchnad o ran y sector organig ers blynnyddoedd lawer. Mae angen i'r buddsoddiad hanesyddol o ran amser ac arian barhau i sicrhau amrywiaeth ac i leihau'r risgiau yn y diwydiant amaeth cyfan. O ddarparu amrywiaeth o gynnyrch bwyd a defnyddio amrywiaeth o ddulliau ffermio, mae'n rhoi dewis i'r defnyddiwr ac yn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r diwydiant amaeth.
- Dro ar ôl tro, dywedwyd bod yr ucheldir yn hollbwysig i Gymru, ond mae problemau cynhenid yn parhau. Yn eu plith mae dirywiad buchesi'r ucheldir a dirywiad y boblogaeth gofrestredig led-fferal o Ferlod Mynydd Adran A, ynghyd â chynnydd yn nifer y ceffylau heb eu rheoleiddio, cyflwr gwael y rhan fwyaf o gynefinoedd ucheldir Cymru o

ganlyniad i'r ffordd y cawsant eu rheoli'n hanesyddol a llygredd, tanau bwriadol a phwysau gan ymwelwyr.

- Mae angen i'r diwydiant fod yn fwy hyblyg i sicrhau bod modd iddo ymateb yn gyflym. Mae'n debygol y bydd y marchnadoedd yn parhau i fod yn anwadal am byth. Mae angen i'r diwydiant fod yn barod i arbed arian, ailstrwythuro, ymaddasu ac ymateb yn gyflymach nag y mae ar hyn o bryd.
- Rôl amaethyddiaeth a chymorth amaethyddol o ran cyflawni amcanion, gan gynnwys cydnerthedd ecolegol a'r dull ecosystemau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Bil yr Amgylchedd.
- Bioamrywiaeth yn dirywio fel y nodwyd yn yr Aseiad Ecosystemau Cenedlaethol a'r Adroddiad am Sefyllfa Byd Natur, a cholli'r 'fyddin dawel' o fywyd gwyllt sy'n cynorthwyo ffermwyr am ddim (peillio, rheoli plâu, ffrwythloni ac ati).
- Potensial sydd heb ei ddatblygu ar gyfer cynnyrch fel storio carbon, ynni adnewyddadwy, coedwigaeth a rheoli dŵr. Tirwedd werthfawr i'r diwydiant twristiaeth ond ceir potensial i wella ecosystemau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.
- Y rhagolygon o ran newid hinsoddol ac amgylcheddol, gan gynnwys clefydau anifeiliaid a phlanhigion newydd.
- Mae angen i bawb sy'n ymwneud â'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach fod yn fedrus, ymrwymo i hyfforddiant parhaus, a hyrwyddo diwydiant lle ceir gyrfaoedd cynaliadwy a lle mae busnesau'n ffynnu.
- Sicrhau mai amaethyddiaeth yw'r prif sbardun sy'n gwarchod ac yn gwella statws tirwedd cenedlaethol a rhyngwladol yr ardaloedd hyn.
- Rydym yn credu mai her ddiwylliannol yn hytrach na her economaidd yw'r brif her. Nid yw'r fframwaith hwn yn mynd i'r afael â dylanwad cryf diwylliant Cymru ar amaethyddiaeth.
- Bydd dealltwriaeth drylwyr o'r ffaith bod cynhyrchu, arferion ffermio da a gofalu am yr amgylchedd yn mynd law yn llaw yn hollbwysig i iechyd y diwydiant amaethyddol yn y tymor hir. Bydd hefyd yn sicrhau bod modd rheoli adnoddau naturiol yn llwyddiannus yn unol â chynigion Bil yr Amgylchedd. Yn y tymor byrrach, mae'r angen i lawer o ffermwyr sicrhau eu bod yn dal i fod yn broffidiol yn parhau i lesteirio eu gallu i gyflawni amcanion mwy hirdymor.
- Er bod materion newid hinsawdd yn cael eu crybwyll mewn sawl man yn y ddogfen ymgynghori, nid oes unrhyw gyfeiriad at rôl hollbwysig y sector amaeth o ran cyfrannu at y targedau datganoledig i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (yn enwedig gan fod tua 20% o allyriadau

Cymru'n dod o'r sector defnydd tir). Byddai'n ddefnyddiol cael datganiad mwy pendant am bwysigrwydd lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy ddefnyddio mesurau lliniaru (fel y rheini a nodir yn y Mapiau Ffyrdd Cig Coch a Llaeth). O ran y cyfeiriad at 'leihau ôl troed carbon', mae'n hollbwysig sicrhau bod arbedion effeithlonrwydd o ran adnoddau ac allyriadau'n arwain at ostyngiad net o ran allyriadau sector amaethyddol Cymru (yn unol â gofynion y Cyllidebau Carbon a nodir ym Mil yr Amgylchedd) yn hytrach na dim ond gostyngiad fesul hectar yn nwysedd carbon yr allbwn amaethyddol. Dylid sicrhau bod yr angen am ostyngiad net o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr yn llawer mwy pendant.

- Mae'r potensial sydd heb ei ddatblygu ar gyfer cynnyrch fel dal a storio carbon, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a rheoli dŵr yn gyfle gwych i sefydlu systemau newydd o daliadau am wasanaethau ecosystemau.
- Croesawu'r ystyriaeth a roddir i newid hinsawdd. Fodd bynnag, er ein bod yn cydnabod bod y pryder yn ddilys, mae angen canolbwyntio mwy ar y newidiadau uniongyrchol – y newidiadau tebygol i'r tymheredd, y newid i'r patrymau glawio, ac effaith digwyddiadau tywydd eithafol sy'n digwydd yn amlach.
- Rydym yn cytuno â'r angen i wella capasiti a chydnerthedd ac rydym yn credu bod angen gwneud mwy i amddiffyn cymorth y PAC oherwydd ei fod yn cefnogi capasiti a chydnerthedd, yn gweithredu fel byffer yn erbyn anwadalrwydd, yn cefnogi'r economi wledig ac yn helpu i sicrhau bod bwyd yn hygyrch.
- Rydym yn derbyn bod y sefyllfa'n newid o ran cymorth ariannol a'r camau parhaus i ddiwygio'r PAC. Sylwer ar y sylwadau uchod ynghylch yr angen i ddeall pwysigrwydd cymorth Colofn 1 yn well. Byddem yn hoffi gweld Cynllun Datblygu Gwledig Cymru'n parhau i gael ei ddefnyddio i hyrwyddo ac i gymell gwelliannau a buddsoddiadau ym maes ffermio sylfaenol.
- Os bydd yr hinsawdd yn newid yn unol â'r rhagfynegiadau, dylai glaswellt dyfu'n well ac mae'r diwydiant defaid eisoes yn barod i ymaddasu i hyn ac i elwa, o bosibl, ar fwy o arbedion effeithlonrwydd.
- Dylid cydnabod y peryglon i iechyd dynol o ran milheintiau ond hefyd o ran effaith clefydau amaethyddol na ellir eu rheoli ar faethiad.
- Byddem yn hoffi gweld amrywiaeth eang o gytundebau rhentu a rhannu tir, gan gynnwys gosod tir am gyfnodau byr, cytundebau rhannu tir a thenantiaethau mwy hirdymor. Dylai tenantiaethau ffermydd cyfan fod yn fwy hirdymor, yn gyffredinol, i annog mwy o fuddsoddi, diogelu ac arferion rheoli tir da.
- Yn yr un modd, rhaid cynnwys effaith ffermio dwys ar lygredd mewn cyrsiau dŵr er mwyn i'r fframwaith gydweddu â Chyfarwyddeb

Fframwaith Dŵr Ewrop. Rydym yn sylwi nad oes unrhyw ddogfen ffynhonnell benodol ynghylch ffermio dofednod dwys sy'n peri pryder ledled Cymru.

- Mae angen cynghori ac addysgu pob ffermwr ynghylch gosod tir ar Denantiaeth Busnes Fferm a deall manteision ffermio cyfran neu bartneriaethau. Dylai'r rhain ddod yn rhan o'r eirfa ffermio er budd pawb.

Nid oedd dau o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno:

- Mae cyfle mawr i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r diwydiant, ac mae gwir angen gwneud hynny. Yn gyffredinol, hoffem weld amrywiaeth eang o gytundebau rhannu a rhentu tir, gan gynnwys gosod tir am gyfnod byr, cytundebau rhannu tir a thenantiaethau mwy hirdymor.
- Mae'n galonogol gweld bod y camau i arallgyfeirio tir a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd yn unig yn cynnwys datblygu'r potensial ar gyfer 'cynnyrch' fel storio carbon, ynni adnewyddadwy, coedwigaeth a rheoli dŵr. Mae gan y diwydiant amaeth rôl enfawr i'w chwarae i reoli peryglon newid hinsawdd a bydd yn hollbwysig pennu systemau cyllido (e.e. talu am wasanaethau ecosystemau) i gyflawni'r elfen hon.
- Mae angen i Gymru fynd i'r afael â'r her allweddol o ddylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr. Mae cyfle inni ganolbwyntio ar gynnyrch mewnbwn isel ac allbwn isel o'r ansawdd gorau sy'n fwy cynaliadwy. Mae hefyd angen inni gydweithio ar draws y sectorau i sicrhau bod defnyddwyr yn rhoi gwerth ar gynnyrch o'r fath.
- Rydym yn croesawu'r ystyriaeth a roddir i newid hinsawdd. Fodd bynnag, er ein bod yn cydnabod bod y pryder yn ddilys, nid ydym yn cytuno y dylid rhoi cymaint o bwyslais ar glefydau anifeiliaid a phlanhigion newydd: mae hon yn un o symptomau prif effeithiau newid hinsawdd. Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar y newidiadau uniongyrchol – y newidiadau tebygol i'r tymheredd, y newid i'r patrymau glawio, ac effaith digwyddiadau tywydd eithafol sy'n digwydd yn amlach.
- Bydd gwybodaeth leol yn hollbwysig i lunio atebion cynaliadwy ar sail egwyddorion lefel uchel, ond bydd angen ymdrechu i weithio mewn partneriaeth ac uwchsgilio'r rheini sy'n ymwneud â'r broses benderfynu leol.

Roedd un o'r ymatebwyr yn anghytuno'n gryf:

- Rhaid cynnwys effaith ffermio dwys ar lygredd mewn cyrsiau dŵr er mwyn i'r fframwaith gydweddu â Chyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Ewrop.
- Rydym yn sylwi nad oes unrhyw ddogfen ffynhonnell benodol ynghylch ffermio dofednod dwys sy'n peri pryder ledled Cymru.

- Nid yw'r rhestr o bwyntiau bwled sy'n nodi'r heriau, y cyfleoedd a'r bygythiadau'n helpu i ddiffinio'r meysydd allweddol nac i ddatgelu natur ddeuol neu driphlyg llawer o gynlluniau sy'n gyfuniad o heriau / cyfleoedd / bygythiadau. O'r herwydd, mae'n anodd asesu effaith polisïau ar rannau eraill o'r diwydiant amaeth a'r amgylchedd ehangach a'u hymgorffori mewn strategaeth a gweithdrefnau adolygu amserol.
- Dylid cynnwys effeithiau andwyol posibl prosiectau ynni adnewyddadwy ar agweddau eraill ar ffermio, twristiaeth, iechyd a lles cymunedau gwledig ac ar warchod cynefinoedd a bioamrywiaeth fel bygythiad.

### Sefydliadau garddwriaethol

Roedd un o'r ymatebwyr yn cytuno:

- Rhaid tanlinellu'r perygl sydd ynghlwm wrth ddiwygio'r PAC a rhoi mwy o sylw iddo yn y strategaeth i sicrhau bod y diwydiant mewn gwell sefyllfa i wynebu dyfodol heb gymorthdaliadau.

Nid oedd un o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno:

- Mae'n galonogol bod y cyfle i hyrwyddo bwyta bwyd iach yn cael ei nodi, ynghyd â phresenoldeb ehangach y diwydiant tu hwnt i gât y fferm, gan gynnwys cydweithio â mentrau tyfu cymunedol a banciau bwyd. Fodd bynnag, mae'r cyfle sy'n codi o brosiectau tyfu cymunedol yn llawer ehangach na'r hyn a awgrymir yn y ddogfen.

### Prifysgolion

Roedd un o'r ymatebwyr yn cytuno:

- Rydym yn croesawu'r angen am addysg o safon ar bob lefel i fynd i'r afael â'r bylchau sgiliau, a'r angen i wneud y gorau o'r cyfleusterau ymchwil ac addysgu mewn ffordd gyfun a chydweithredol. Mae bygythiad newid hinsawdd a'r tebygrwydd y bydd clefydau anifeiliaid newydd yn dod i'r amlwg hefyd yn golygu bod angen addysg barhaus.

Roedd un o'r ymatebwyr yn anghytuno:

- Nid yw materion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â gwaith yn cael digon o sylw. Mae'n hollbwysig atal yr achosion ofnadwy o niferus o anafiadau, salwch a marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwaith sy'n andwyo'r sector amaeth. Mae'r methiannau hyn yn effeithio'n barhaus ar ffermwyr, eu teuluoedd a'u busnesau. Yn benodol, rydym yn awgrymu "bod ... arferion ffermio da, gofalu am yr amgylchedd a gweithlu diogel ac iach yn mynd law yn llaw".

- Bygythiadau: rydym yn awgrymu y dylid defnyddio'r geiriad a ganlyn: "... gan gynnwys clefydau anifeiliaid (gan gynnwys milheintiau) a chlefydau planhigion newydd".

### Eraill

Roedd chwech o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf / yn cytuno â'r dadansoddiad, gan ddweud:

- Yn llwyr gefnogi'r weledigaeth o gynhyrchu cynaliadwy a amlinellir ym mharagraff 18. Rhaid i amaethyddiaeth Cymru fod yn fuddiol o safbwynt economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, gydag allbynnau lluosog a gwasanaethau ecosystemau. Dylai ddibynnu llai ar gymorthdaliadau a dylai fod mewn gwell sefyllfa i ateb y gofynion hyn.
- Seilwaith cynyddol anghystadluel (ffyrdd, rheilffyrdd a rhyngwyd). Prinder cyfleoedd amlwg i allforio.
- Drwy sicrhau bod pridd yn cael ei reoli mewn ffordd gyfannol ac adfywiol (nid yw'n ddigonol anelu at fod yn gynaliadwy yn hyn o beth, rhaid ei adnewyddu a'i wella cyn bod modd anelu at gynhyrchu cynaliadwy), byddai'n sicrhau bod cnydau, boed i'w bwyta'n uniongyrchol neu i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid, yn cael gafael ar faethynnau yn y pridd ac yn tyfu cynnyrch maethlon, cytbwys sy'n addas i'w bwyta gan bobl.
- Rydym yn cytuno â'r asesiad o'r cyfleoedd, y bygythiadau a'r heriau y mae'n rhaid i'r diwydiant amaeth fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, nid ydym yn teimlo bod yr heriau / bygythiadau sy'n deillio o ffactorau tu hwnt i reolaeth cyrff y diwydiant a Llywodraeth Cymru'n cael eu cydnabod yn ddigonol. Un enghraifft yw'r gostyngiad aruthrol ym mhrisiau nwyddau yn y sector llaeth sy'n effeithio'n enbyd ar incwm a phroffidioldeb ffermydd. Bydd hyn yn sicr o gael effaith andwyol anuniongyrchol ar iechyd a lles anifeiliaid wrth i ffermwyr geisio lleihau eu costau. Rydym yn deall bod angen meithrin a datblygu marchnadoedd, ond mae angen rheoleiddio'r cadwyni cyflenwi'n well i sicrhau bod modd i ffermwyr gadw'r buddion y gallant eu cael drwy arbedion effeithlonrwydd, yn hytrach na gweld y buddion hynny'n cael eu herydu gan y sector manwerthu pwerus.
- Mae angen cydnabod, fodd bynnag, nad oes diwydiant amaeth ar gael heb ffermwyr. Mae angen annog ffermwyr yn hytrach na'u llesteirio. Ar y cyfan, mae ffermwyr yn grŵp o bobl ddyfeisgar ac, o greu'r amgylchiadau cywir ar eu cyfer, byddant yn mynd ati'n naturiol i arloesi ac i arallgyfeirio. Mae angen hyblygrwydd i ganiatáu i'r diwydiant ffynnu: bydd gormod o reoleiddio'n lladd brwdfrydedd ac yn atal cyfleoedd.
- Mae ffermwyr yn dal i wynebu her o ran cymhlethdod y drefn reoleiddio a'r camau y mae'n ofynnol iddynt eu cymryd yn ei sgil. Yn 2012,

gwnaed ymrwymiad yn yr adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' i leihau gwaith papur a rhoi'r gorau i greu mwy o ddeddfwriaeth na'r hyn sy'n ofynnol. Fodd bynnag, gan fod SAF 2015 yn fwy cymhleth nag erioed, nid yw'n ymddangos bod amcanion yr adroddiad yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn her ac yn fygythiad i ffermwyr, yn enwedig os bydd y duedd yn parhau, gan fod mwy o berygl na fyddant yn gallu llenwi'r ffurflenni SAF neu gydymffurfio â'r gofynion trawsgydymffurfio.

- Mae unigolion sy'n byw mewn ardaloedd â chysylltiad rhyngwyd gwael a'r rheini nad ydynt yn cael eu cynnwys yn rhaglen Cyflymu Cymru i uwchraddio i fand eang ffeibr yn wynebu heriau cynyddol. Mae mwy a mwy o angen i unigolion ddefnyddio'r we i redeg busnes ffermio yn y ffordd fwyaf effeithlon a chael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf er budd eu busnesau. Byddai buddsoddi mewn signal 4G gwell mewn ardaloedd gwledig yn ateb y broblem.
- Ansicrwydd ariannol yw'r bygythiad mwyaf i'r gymuned ffermio a gellir lliniaru'r bygythiad hwn, i raddau helaeth, drwy gynllunio'n well o ran diwydiad nesaf y PAC. Dylid dysgu gwersi o'r adolygiad hwn a hoffwn weld y cynigion o ran y Cynllun Datblygu Gwledig a Ffurflen y Cais Sengl ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu lle mewn da bryd.
- Mae'r cyfleoedd o ran genomeg yn cynyddu. Defnyddio ymchwil a geneteg da byw i sicrhau gwelliannau mawr o ran perfformiad heb fod angen cynyddu'r mewnbynnau/niferoedd stocio.
- Yn fwy penodol, nid ydym yn credu bod y ddogfen ymgynghori'n tanlinellu'n ddigonol bwysigrwydd amgylchedd iach o ran cynnal diwydiant amaeth Cymru. Pridd, dŵr a bywyd gwyllt iach yw conglfefini'r diwydiant. Heb ddŵr a phridd iach, byddai amaethyddiaeth yn amhosibl neu o leiaf yn afresymol o ddrud. Yn yr un modd, o fethu â diogelu bywyd gwyllt, byddai'n bygwth prosesau fel peillio sy'n sicrhau bod modd ffermio. O fethu â chydabod y bygythiadau hyn, mae'n debygol o beri anawsterau sylweddol i'r diwydiant wrth iddo geisio creu dyfodol cynaliadwy.



### **Cwestiwn 3. A oes gennych sylwadau a safbwyntiau eraill gan gynnwys sut y gallai gweithio trwy bartneriaeth weithio?**

Cafodd y pwyntiau bwled isod eu didoli i grwpiau bras. Sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr ydynt ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn Llywodraeth Cymru, unrhyw ran ohoni nac unrhyw gorff sy'n gysylltiedig â hi.

#### Crynodeb

Cafodd dau fater amlwg eu trafod yn yr adran hon o ran y Grŵp Partneriaeth. Roedd y naill yn cefnogi cyfansoddiad â ffocws amaethyddol amlwg ac roedd y llall yn galw am grŵp a fyddai'n rheoli agenda amgylcheddol a chymdeithasol ehangach.

#### Ffermwyr, cyrff ffermio â buddiant a sefydliadau cysylltiedig

Dywedodd wyth o'r ymatebwyr fod ganddynt sylwadau a safbwyntiau eraill:

- Rhaid bod gan y Grŵp Partneriaeth fwyafrif cryf o'r gymuned ffermio, a rhaid iddo gwrdd mewn lleoliadau sy'n gyfleus iddi. Yn gyfnewid am hynny, rhaid i ffermwyr, nid dim ond yr undebau, fod yn barod i gyfrannu mwy o amser ac ymdrech i drafod materion polisi.
- Byddai coedwigaeth a rheoli coetiroedd yn well yn gwella bioamrywiaeth a'r amgylchedd.
- Cael trawstoriad o ffermwyr sy'n gweithio'n galed.
- Mae ffermio'n syml iawn, anifeiliaid â nodweddion genetig gwell, rheoli glaswellt a phridd yn dda i wneud y gorau o botensial genetig ein hanifeiliaid a'n cnydau. Mae ein hinsawdd yn addas i dyfu glaswellt rhagorol, sef y ffynhonnell fwyd rataf i gynhyrchu cig o hyd. Gallwn gynhyrchu mwy gan ddefnyddio llai o dir a chreu busnesau mwy cynaliadwy a phroffidiol. O wneud hynny, bydd hefyd yn ychwanegu gwerth at ein sector bwyd a diod.
- Cynrychiolwyr y diwydiant llaeth ac eidion a'r FUW a'r NFU yw llofnodwyr y ddogfen yn bennaf. Prin fod hyn yn cynrychioli holl reolwyr tir Cymru sy'n cynhyrchu cynnyrch a gwasanaethau. Ble mae'r diwydiant twristiaeth, er enghraifft, a garddwriaeth? Os yw'r llofnodwyr hyn yn adlewyrchu'r bartneriaeth, mae'n llawer rhy gul.
- Awgrymir y dylid sefydlu model llywodraethu clir i sicrhau bod eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau'n cael eu mynegi'n effeithiol a'u bod yn siarad ag un llais ar faterion iechyd a lles anifeiliaid.

#### Llywodraeth leol a sefydliadau cysylltiedig

Dywedodd deg o'r ymatebwyr fod ganddynt sylwadau a safbwyntiau eraill:

- O weithio mewn ffordd gydweithredol, gallai helpu ffermwyr i fynd ati ar y cyd i ddefnyddio llai o nitradau mewn dalgylch; nid oes cymaint o gymhelliad i wneud hynny os ydynt yn gweithredu fel busnesau unigol.
- Synnu nad oes llawer o sôn am dwristiaeth yn y ddogfen ymgynghori gan fod llawer o fusnesau twristiaeth Cymru'n gweithredu ar ffermydd. Mae angen tirwedd ddeniadol ac amrywiol ar dwristiaeth a dylai'r angen i gynnal y dirwedd hon fod yn nodwedd amlwg o strategaethau a pholisïau amaethyddol.
- Credu ei fod yn syniad da cynnull Grŵp Partneriaeth a sefydlir gan y diwydiant o dan gadeiryddiaeth cynrychiolydd o'r diwydiant amaeth. Credu hefyd ei fod yn syniad da i Lywodraeth Cymru fod yn aelod o'r grŵp hwn. Awyddus i bwysleisio pwysigrwydd ffermio cydnerth a ffermio cynaliadwy er mwyn cyflawni canlyniadau amgylcheddol ac er budd y dirwedd a thwristiaeth. I'r perwyl hwnnw, byddai'r cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod cynrychiolaeth ddigonol o'r sector amgylcheddol ymhlith aelodau'r grŵp hwn.
- Bydd yn hollbwysig ystyried y trefniadau llywodraethu a'r cysylltiadau â grwpiau sy'n bodoli eisoes.
- Awgrymu y dylid achub ar y cyfle cyntaf i ystyried rôl y Grŵp Partneriaeth pe bai achosion o glefyd egsotig.
- Bydd angen i'r grŵp partneriaeth bennu targedau clir er mwyn i'r diwydiant ddeall yn union ymhle mae angen iddo fod ac ym mha rannau o'r sector amaeth y mae potensial i dyfu.
- Mae'n drawiadol bod sefydliadau natur, addysg uwch a sefydliadau eraill tu allan i'r diwydiant ffermio (fel Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Leol) wedi'u hepgor o'r rhestr hon. Mae'r holl sefydliadau hyn yn rhanddeiliaid pwysig o ran gwarchod a rheoli cefn gwlad a'r gwasanaethau ecosystemau a ddarperir ganddo.
- Bydd angen i aelodaeth y grŵp adlewyrchu meysydd pwysig lechyd a Lles Anifeiliaid, yr Amgylchedd, Glastir a Choetiroedd. Rydym yn awgrymu y dylai'r Grŵp Partneriaeth arfaethedig ganolbwyntio ar ddatblygu dulliau mwy strategol o ddatblygu pob sector amaethyddol, gan hybu camau i ymgysylltu'n gynnar â rheoleiddwyr fel Cyfoeth Naturiol Cymru. Talu am Wasanaethau Ecosystemau a Sgiliau, Hyfforddiant a Gyrfaoedd.
- Awgrymu y dylai'r Grŵp Partneriaeth arfaethedig ganolbwyntio ar ddatblygu dulliau mwy strategol o ddatblygu pob sector amaethyddol, gan hybu camau i ymgysylltu'n gynnar â rheoleiddwyr fel Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Dylai Cylch Gorchwyl y Grŵp Partneriaeth hefyd adlewyrchu'r angen i arloesi ac i weithio ar draws sectorau.
- Credu'n gryf y bydd yn hanfodol ehangu aelodaeth y bartneriaeth arfaethedig er mwyn i'r fframwaith strategol lwyddo. Bydd yn hanfodol sicrhau bod yr holl brosesau penderfynu'n rhoi sylw i'r tymor hir, a bod effeithiau tymor byr yn cael eu lliniaru yn hytrach na'u blaenoriaethu mewn polisiau.

### Garddwriaeth

Dywedodd dau o'r ymatebwyr fod ganddynt sylwadau a safbwyntiau eraill:

- Byddwn am weld y Grŵp Partneriaeth arfaethedig yn ystyried amaethyddiaeth yng nghyd-destun economi gyfan Cymru, ac amgylchedd cynaliadwy. Mae angen rhoi sylw i bob un o'r elfennau a ddisgrifir yn y ddogfen wrth lunio'r strategaeth a'i rhoi ar waith. Cydnabyddir bod y rhan fwyaf o fusnesau ffermio a garddwriaeth Cymru'n gymharol fach. Mae'r strwythur hwn yn bwysig iawn i gynnal cymunedau gwledig. Byddwn am i'r Bartneriaeth roi blaenoriaeth i'r gwaith o gynllunio strwythur a threfniadaeth y diwydiant er mwyn cynnal cymunedau.
- Er mwyn i'r Grŵp Partneriaeth lwyddo, mae'n hanfodol bod cynrychiolwyr o'r meysydd iechyd, addysg, cymunedol ac amgylcheddol yn aelodau ohono, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r sector amaeth, a hynny er mwyn sicrhau bod y gwaith o wireddu'r weledigaeth yn gytbwys ac nad yw'n cael ei ystumio gan ffactorau masnachol. Bydd hyn yn hanfodol i sicrhau bod ffermio'n dod yn ddiwydiant cynaliadwy yn yr ystyr ehangaf.

### Prifysgolion

Gwnaeth un o'r ymatebwyr sylw:

- Byddai'n fuddiol meithrin cysylltiadau rhyngddo a'r trefniadau partneriaeth presennol fel y Bartneriaeth Diogelwch Fferm a Grŵp Trosglwyddo Gwybodaeth Amaethyddiaeth Llywodraeth Cymru.

### Eraill

Gwnaeth chwech o'r ymatebwyr sylwadau:

- Ceir gogwydd sylweddol tuag at y diwydiant da byw a'r *status quo*. Mae angen partneriaeth ehangach fwy annibynnol sy'n gallu meddwl yn fwy creadigol a herio'r *status quo*. Mae'n bosibl y dylid sefydlu grŵp polisi i gynghori'r llywodraeth, yn debyg i'r Comisiwn Polisi a luniodd Adroddiad Curry ar Ddyfodol Ffermio a Bwyd yn 2002.

- Dim ond cyngori y gall y grŵp ei wneud, ond o ddod â'r prif randdeiliaid ynghyd, dylai fod yn bwerus. I sicrhau bod ganddo wybodaeth gyflawn, dylai fod modd iddo gyfethol aelodau ychwanegol, gan gynnwys o'r UE a Defra, i drafod testunau penodol hyd yn oed, a dylai fod yn barod i wneud hynny.
- Er mai dim ond rôl gyngori sydd ganddo, rhaid i Lywodraeth Cymru roi sylw i gyfarwyddyd awdurdodol a gwybodus y Grŵp Partneriaeth.
- O sefydlu Grwpiau Gweithredu, byddai'n helpu i drosi'r weledigaeth lefel uchel hon yn weithredu ar lawr gwlad, gan wella a hybu hygyrchedd cyfleoedd ariannu'r Cynllun Datblygu Gwledig.
- Bydd angen i'r Grŵp Partneriaeth gael ei gadeirio gan unigolyn cryf a bydd rhaid i bob aelod o'r Grŵp Partneriaeth weithio'n ddiflino i gyflawni'r weledigaeth.
- Ni ddylid cyfyngu'r Grŵp Partneriaeth i'r diwydiant amaeth a Llywodraeth Cymru oherwydd nad yw'n briodol i grŵp cyfyngedig fod yn "berchen" ar weledigaeth a fydd yn cael effaith mor bellgyrhaeddol ar bob un ohonom. Ni fyddai'r bartneriaeth gyfyngedig hon yn ddelfrydol ychwaith i godi proffil ffermio yng Nghymru mewn ffordd gadarnhaol. Nid yw tarddiad y Grŵp Partneriaeth yn foddhaol ychwaith. Bydd yn bodoli eisoes a bydd wedi'i sefydlu o'r tu mewn i'r diwydiant cyn i neb gytuno ar ei aelodaeth. Yna bydd ganddo berthynas uniongyrchol â Llywodraeth Cymru i lunio polisïau a strategaethau heb fod neb yn craffu ar ei waith yn gyhoeddus.
- Dylai'r bartneriaeth gynnwys arbenigwyr sy'n gallu rhoi sylwadau ar ddulliau eraill o ddefnyddio tir a'u hyrwyddo oherwydd bydd y dulliau eraill hyn yn darparu incwm amgen i ffermwyr. Dylai'r bartneriaeth fod yn effro i'w manteision.
- Gwerthfawrogi'r dull partneriaeth cynhwysol y mae Llywodraeth Cymru'n aml yn ceisio ei feithrin. Rhaid i'r grŵp gael barn gytbwys o bob diwydiant sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth. Mae angen sicrhau bod modd i'r grŵp gynnig syniadau a chynlluniau y mae Llywodraeth Cymru'n barod i ymchwilio iddynt a'u rhoi ar waith.
- Dylid sicrhau bod cynrychiolaeth deg o ucheldir Cymru'n rhan o'r grŵp partneriaeth.
- I fod yn effeithiol, rhaid i'r Grŵp Partneriaeth helpu i bennu cyfeiriad ac amcanion clir ar gyfer y diwydiant amaeth a gaiff eu gwireddu drwy gynlluniau gweithredu a fydd yn ceisio cyflawni allbynnau/canlyniadau mesuradwy. Gan fod bwriad i'r Strategaeth a gaiff ei llunio bara tan 2020, bydd yn sicrhau bod modd i Lywodraeth Cymru baru'r amcanion amaethyddol â'r angen i fodloni nifer o dargedau amgylcheddol erbyn yr un dyddiad, gan gynnwys rhoi terfyn ar ddirywiad bioamrywiaeth. Mae'r dull hwn o weithredu'n hollbwysig os yw Cymru am gael

diwydiant amaethyddol blaengar, cynhyrchiol a phroffidiol sy'n seiliedig ar arferion ac egwyddorion rheoli tir cynaliadwy.

- Ceir cynrychiolaeth o bob un o'r sectorau a'r systemau ffermio, gan gynnwys systemau ffermio sydd o Werth Mawr i Natur, ac mae hynny'n hanfodol i sicrhau amrywiaeth o fuddion amgylcheddol a chymdeithasol.

## **Sylwadau cyffredinol**

Cafodd y pwyntiau bwled isod eu didoli i grwpiau bras. Sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr ydynt ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn Llywodraeth Cymru, unrhyw ran ohoni nac unrhyw gorff sy'n gysylltiedig â hi.

### Ffermwyr, cyrff ffermio â diddordeb a sefydliadau cysylltiedig

Cafwyd deuddeg ymateb i gyd.

- Ar hyn o bryd, mae ffermwyr Cymru'n wynebu cyfnod eithriadol o anwadal ar draws pob maes amaethyddol allweddol gan fod y prisiau wrth gât y fferm am laeth, cig oen a grawn yn enwedig wedi disgyn hyd yn oed ymhellach dros yr wythnosau diwethaf. Mae'r sefyllfa bresennol yn pwysleisio bod angen i'r diwydiant a'r Llywodraeth gydweithio ar fframwaith strategol sy'n ceisio adeiladu diwydiant amaeth cynhyrchiol, proffidiol a blaengar yng Nghymru. Mae angen mynd ati ar fyrder i lunio polisiau a fydd yn galluogi ffermwyr Cymru i ymdopi'n well â'r anwadalrwydd ac i sicrhau bod eu busnesau'n fwy cydnerth.
- Un o'r bylchau yn y ddogfen yw'r ffaith nad yw'n cydnabod polisiau'r UE.

### Llywodraeth leol a sefydliadau cysylltiedig

- Mae'r safbwyntiau a nodir ym mharagraff 18 yn dangos natur yr her nid dim ond i'r diwydiant ond i'r rheini â diddordeb yn nyfodol cynaliadwy cefn gwlad Cymru, nid lleiaf o ran ein tirweddau dynodedig lle mae fframwaith yn ei le i ddod â'r holl randdeiliaid ynghyd er budd pob un ohonynt.
- Yn rhinwedd eu rôl fel cynhyrchwyr bwyd a gwarcheidwaid y dirwedd, mae cynhyrchwyr cig coch Cymru'n rhan annatod o'r gwaith o reoli'r tir y mae ein diwydiant bwyd a'n diwydiant twristiaeth yn dibynnu arno, yn ogystal â chwarae rôl hollbwysig i gefnogi'r economi wledig.

### Eraill

- Mae cyfleoedd i dirfeddianwyr a rheolwyr yn y diwydiant amaeth elwa ar yr amgylchedd hanesyddol a'r ymdeimlad o le y mae'n ei roi i'w busnesau.

- Nid yw economi amaethyddol gref sy'n cael ei rheoli'n dda ac amgylchedd hanesyddol sy'n cael ei reoli'n dda'n annibynnol ar ei gilydd. Gallant fod o fudd i'w gilydd ac felly rydym yn gofyn am i'r amgylchedd hanesyddol gael ei gynnwys yn y ddogfen.
- Mae gofyniad cyfreithiol cyffredinol am i fwyd fod yn ddiogel ... rydym yn falch o nodi bod eich dogfen ymgynghori'n cyfeirio at yr angen i bolisïau amaethyddol Cymru hyrwyddo bwyd sy'n ddiogel, sydd ar gael yn rhwydd ac sy'n fforddiadwy.
- Tanlinellu pwysigrwydd ystyried rhywedd pan fydd y Fframwaith newydd yn cael ei lunio.

Dywedodd y sefydliadau a ganlyn y byddent yn falch o gael cyfle i gyfrannu at waith y Grŵp Partneriaeth / cydweithio ag ef:

- Cymdeithas Milfeddygon Cymru
- Coed Cadw
- Chwarae Teg (cymorth i ymgorffori newid o ran rhywedd)
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Y Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (ac enwebu cynrychiolydd o'r Grŵp Diwydiant Gwledig)
- Y sector organig
- Y Parciau Cenedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- RSPB
- Yr Ymddiriedolaeth Natur